## GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG
## (MANNAU PARCIO ODDI AR Y STRYD)
## (GORFODI SIFIL) (DIWYGIAD) 2025

1. Hysbysir trwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan adrannau 32, 33 a 35 a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn a fydd yn ychwanegu lleoedd parcio â thal a thaliadau yn y lleoliadau a nodir yn yr Atodlenni isod.

2. Mae manylion llawn y cynigion, a fydd yn cynnwys copi o'r Gorchymyn arfaethedig, a Rhifau Cynlluniau DC/M25/CK01, BI01, BYM01, CP01, WF01 a PO01 i'w gweld ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk/hysbysiadaucyfreithiol ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau sydd gennych i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. DC/C274) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk erbyn dydd **Gwener 25 Ebrill 2025** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu'r cynnig hwn.

3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

**Mae'r Gorchymyn Rheoli Traffig canlynol i'w ddiwygio Gorchymyn Cyngor Bro Morgannwg (Mannau Parcio Oddi ar y Stryd) (Gorfodi Sifil) (Diwygio) 2013 ("Gorchymyn 2013")**

**Bydd y meysydd parcio canlynol yn cael eu tynnu o Atodlen 2 (Mannau Parcio am ddim) a'u rhoi yn Atodlen 1 (Mannau Parcio â Thâl)**

Maes Parcio'r Cnap, Y Barri
Maes Parcio Bron y Môr
Maes Parcio Cliff Top (Parade), Penarth
Maes Parcio West Farm, Aberogwr
Maes Parcio Portabello, Aberogwr
Harbour Road (maes parcio gorlifo), Ynys y Barri

Dyddiedig 3 Ebrill 2025
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô, CF5 6AA.

### ATODLEN
### MANNAU PARCIO Â THÂL
**Dosbarthiadau cerbydau**

1. Cerbydau pobl anabl 2. Ceir 3. Bysus/Coetsis 4. Beic modur

**Meysydd Parcio Arfordirol**

| Enw'r Man Parcio | Dosbarth y Cerbyd | Diwrnodau ac Oriau Gweithredu'r Man Parcio | Uchafswm y Cyfnod y Gall Cerbyd Aros | Graddfa Gostau Arfaethedig ar gyfer y Man Parcio | Arfaethedig Trwyddedau (yn benodol i'r cerbyd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Harbour Road, Ynys y Barri (Maes parcio gorlifo) | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 07:00 – 22:00 bob dydd | 15 awr | 07.00 – 08.00 – AM DDIM<br>Hyd at 2 awr – £2.00<br>Hyd at 4 awr – £4.00<br>Hyd at 6 awr – £6.00<br>Drwy'r dydd – £8.00<br>Bysus/coetsis – £35 drwy'r dydd<br>Deiliaid Bathodyn Glas – AM DDIM<br>Beiciau modur unigol – AM DDIM | 6 mis – £65<br>12 mis – £105 |
| Traeth y Cnap yn y Barri | 1, 2 a 4. | 07:00 – 22:00 bob dydd | 15 awr | 07.00 – 08.00 – AM DDIM<br>Hyd at 2 awr - £2.00<br>Hyd at 4 awr - £4.00<br>Hyd at 6 awr - £6.00<br>Drwy'r dydd – £8.00<br>Deiliaid Bathodyn Glas – AM DDIM<br>Beiciau modur unigol – AM DDIM | 6 mis – £65<br>12 mis – £105 |
| Bron y Môr, y Barri | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 07:00 – 22:00 bob dydd | 15 awr | 07.00 – 08.00 – AM DDIM<br>Hyd at 2 awr – £2.00<br>Hyd at 4 awr – £4.00<br>Hyd at 6 awr – £6.00<br>Drwy'r dydd – £8.00<br>Bysus/coetsis – £35 drwy'r dydd<br>Deiliaid Bathodyn Glas – AM DDIM<br>Beiciau modur unigol – AM DDIM | 6 mis – £65<br>12 mis – £105 |
| Cliff Top (Parade), Penarth. | 1, 2 a 4<br>3 drwy drefniant yn unig | 07:00 – 22:00 bob dydd | 15 awr | 07.00 – 08.00 – AM DDIM<br>Hyd at 2 awr – £2.00<br>Hyd at 4 awr – £4.00<br>Hyd at 6 awr – £6.00<br>Drwy'r dydd – £8.00<br>Bysus/coetsis – £35 drwy'r dydd<br>Deiliaid Bathodyn Glas – AM DDIM<br>Beiciau modur unigol – AM DDIM | 6 mis – £65<br>12 mis – £105 |
| West Farm, Aberogwr | 1, 2 a 4 | 07:00 – 22:00 bob dydd | 15 awr | 07.00 – 08.00 – AM DDIM<br>Hyd at 2 awr – £2.00<br>Hyd at 4 awr – £4.00<br>Hyd at 6 awr – £6.00<br>Drwy'r dydd – £8.00<br>Deiliaid Bathodyn Glas – AM DDIM<br>Beiciau modur unigol – AM DDIM | 6 mis – £65<br>12 mis – £105 |
| Portabello, Aberogwr | 1, 2 a 4 | 07:00 – 22:00 bob dydd | | 07.00 – 08.00 – AM DDIM<br>Hyd at 2 awr – £2.00<br>Hyd at 4 awr – £4.00<br>Hyd at 6 awr – £6.00<br>Drwy'r dydd – £8.00<br>Deiliaid Bathodyn Glas – AM DDIM<br>Beiciau modur unigol – AM DDIM | 6 mis – £65<br>12 mis – £105 |